Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

# Sut y mae ymchwil iechyd y mae GIG Cymru'n ei hariannu o fudd i'r economi

Mae adroddiad annibynnol, wedi'i gomisiynu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru[1] ac wedi'i gynhyrchu gan dîm Economeg KPMG, yn darparu asesiad o'r effaith economaidd a'r gwerth a gynhyrchwyd trwy weithgarwch ymchwil iechyd a wnaed yn GIG Cymru dros flwyddyn ariannol 2018/19.

Mae'r adroddiad yn cynnwys asesiad o'r cyfraniad a wnaed i'r economi trwy astudiaethau ymchwil y mae GIG Cymru'n eu cefnogi; dadansoddiad i feintioli gwerth ariannol ymchwil iechyd i GIG Cymru (yn benodol, gwerth y cynhyrchion fferyllol a ddarparwyd i'r GIG a'r taliadau a wnaed i sefydliadau GIG am gyflenwi astudiaethau masnachol); a dadansoddiad o effeithiau ehangach a gynhyrchwyd gan Wasanaeth Cefnogi a Chyflenwi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae'r darganfyddiadau allweddol i'w gweld isod.

**Gweithgarwch ymchwil iechyd y mae GIG Cymru'n ei gefnogi a gynhyrchodd:**

Gwerth ychwanegol gros[2] o £93 miliwn

Tua 1,600 o swyddi cyfwerth ag amser llawn

**Yn 2018/19, gwnaeth y GIG yng Nghymru:**

dderbyn **£11,873** ar gyfer pob claf a recriwtiwyd i astudiaeth fasnachol

denu cyfanswm incwm o ryw **£7.4m**

gwneud arbedion costau cymedrol fferyllol uniongyrchol o **£37,053** ar gyfer pob claf a gafodd ei recriwtio i astudiaeth fasnachol

gwneud arbedion costau canolrifol fferyllol uniongyrchol o **£10,718** ar gyfer pob claf a gafodd ei recriwtio i astudiaeth fasnachol

**Cyfanswm arbedion costau a amcangyfrifir i GIG Cymru yn sgil cynhyrchion fferyllol a ddarparwyd yn rhad ac am ddim mewn astudiaethau yn 2018/19:** **£1.3m**

**Rhwng 2015/16 a 2018/19:**

cafwyd cynnydd o **10%** yn yr astudiaethau ar ein portffolio[3]

a chafwyd cynnydd o **46%** yn y cyfranogwyr a gafodd eu recriwtio

Mae dull Cymru'n Un y Gwasanaeth Cefnogi a Chyflenwi o weithredu'n hynod ddeniadol i gynnal ymchwil iechyd gan ei fod yn cyflymu'r prosesau contractio (trwy'r dull safonedig o fynd ati i adolygu a chytuno ar gontractau a chostau) ac mae'n fwy effeithlon. Wedi'i seilio ar adborth y diwydiant.

**Gwelwch yr adroddiad llawn i gael manylion y dadansoddiad.**

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag: ymchwiliechydagofal@wales.nhs.uk**

[1] Wedi'i ariannu gan Is-adran Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cymru.
[2] Mae gwerth ychwanegol gros yn mesur cyfraniad cynhyrchydd, diwydiant neu sector unigol at yr economi, yn glir o dreuliant canolraddol (er enghraifft, nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddir yn y broses gynhyrchu). Mae'n fesur sy'n dangos gwerth economaidd y gweithgarwch.
[3] Mae'r portffolio yn is-set o gyfeiriadur Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ac mae'n cynnwys ymchwil fasnachol ac anfasnachol. Dim ond ymchwil 'o ansawdd uchel' y mae'r portffolio yn ei chynnwys.